# Ein Cwricwlwm

## Ysgolion Ffederal

## Ysgol Bro Elwern ac Ysgol Betws Gwerful Goch

# Ein Gweledigaeth

Un teulu yw'r ddwy ysgol,
Un teulu ar y cyd,
Un teulu lle cawn dyfu,
Mewn dysg, a dawn o hyd.

## Beth sy'n bwysig i ni?

- Parch
- Profiadau Cyfoethog
- Yr Iaith Gymraeg
- Mwynhau dysgu
- Lles ac hapusrwydd
- Ein cymuned
- Annog chwilfrydedd

# Dysgu fel teulu, tyfu fel cymuned'

## Llais ein dysgwyr



## Y pedwar diben

Cyfranwyr mentrus, creadigol

Dinasyddion egwyddorol, gwybodus

Dysgwyr uchelgeisiol, galluog

Unigolion iach, hyderus



Mae llais y disgybl yn ran annatod o'n cwriwcwlwm yn ein hysgolion. Mae galluogi pob disgybl i ddisgleirio, ac i fod yn ganolbwynt eu taith dysgu yn hanfodol. Yn ganolog i'n cwricwlwm mae pob un o'n dysgwyr. Mae eu mewnbwn, a'u syniadau yn allweddol i lunio ein cynlluniau a llywio ein trywydd dysgu o dymor i dymor. Rhown ystyriaeth fanwl i gyd-gynllunio gan gadw mewn cof anghenion a diddordebau ein dysgwyr. Yn ogystal, mae'r pedwar Diben yn sefyll yn gadarn wrth ein tywys drwy ein themau ac arwain ein disgyblion i fod yn unigolion parod i wynebu'r byd, ac i fwynhau wrth ddysgu.



# Ein Gweledigaeth



Holiadur Cwricwlwm i Gymru- llais ein dysgwyr.

Wrth lunio gweledigaeth yr ysgolion, mae'n hanfodol bod llais ein dysgwyr a'r gymuned yn flaenllaw. Felly, mi wnaethon ni greu holiadur ar gyfer ein dysgwyr, rhieni, staff a'r llywodraethwyr. Braf iawn oedd clywed barn cymuned ein hysgolion.
Dyma wnaethon ni ddarganfod...

Hoffwn i gael mwy o gyfleoedd i..
goginio.
Cael mwy o amser hefo'r plant mawr.

Rydw i'n mwynhau...
Gwersi mathameteg- oherwydd dwi'n hoffi adio,lluosi,rhannu a tynnu rhifau, a gwersi codio oherwydd mae'n profiad da ac mae'n hwyl i fi.

Rydw i'n mwynhau...
Chwarae gyda fy ffrindiau yn yr ardaloedd ac yn yr ardal tu allan.

Pa agweddau o'r pedwar diben byddech chi'n hoffi ei ddatblygu ymhellach?
Fuasen yn gallu datblygu ein sgiliau egwyddorol gan mynd allan i'r gymuned i hel sbwriel.

Rydw i'n hoffi...
Dysgu am wledydd,
Celf, Cerddoriaeth,
Darllen

## Cwricwlwm i Gymru - Holiaduron Rhieni



### Pa brofiadau dymunwch i'ch plant/plentyn eu derbyn yn yr ysgol?

- Unrhyw brofiad sy'n gyfoethog, gofiadwy ac yn tanio brwdfrydedd
- Ysgol y goedwig, dawnsio, gwneud arbrofion, chwaraeon
- Amryw o weithgareddau ymarfer corff, ysgol y goedwig, dysgu lle ma bwyd, cig etc yn dod o ac ymweld a llefydd syn dangos hyn, ee ffermydd llaeth ayyb

### Pa leoliadau, digwyddiadau neu bobl lleol ydech chi'n meddwl y dylai ein disgyblion ddysgu amdanynt, neu ymweld a hwy?

- Heddlu, ambiwlans a gwasanaeth tan
- Natur ac ysgol y goedwig
- Hanes Tryweryn, cestyll, busnesau lleol, cartref henoed, eisteddfod Llangollen, yr Urdd, ffermydd lleol, enwau mynyddoedd ac afonydd lleol



### Pa agweddau Iechyd a lles ydech chi'n deimlo dylai'r plant ddysgu amdanynt?

- Perthynas iach, a pherthynas sydd ddim yn iach.
- Cadw'n heini a bwyta'n iach
- Effaith cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg ar iechyd meddwl, deall beth ydy iechyd a sut mae edrych ar ol eich iechyd.
- Sut i fynegi teimladau.
- Dangos parch at eraill.
- Datblygiad y corff.

# Holiadur Cwricwlwm i Gymru – Llais ein rhieni



**Pa ddathliadau dylai eich plant ddysgu amdanynt yn eich barn chi?**

- Gwyl Dewi, diwrnod shw mae su'mae, Owain Glyndwr, dydd Miwsig Cymru.
- Dathliadau crefyddau ar draws y byd
- Wythnos gwrth fwlio
- Pasg, Nadolig a chwaraeon yng Nghymru
- Diwrnod Crempog

**Beth hoffech chi i'r disgyblion ddysgu am Gymru?**

- Ffermio
- Hanes Cymru, a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg
- Tryweryn, Aberfan- hanes Cymru
- Hanes yr Iaith Gymraeg ac S4C, llwyddiant Cymry ar draws y byd, daearyddiaeth Cymru, traddodiadau Cymreig, hawliau Cymru o ran y senedd, awduron a beirdd o Gymru, chwaraeon yng Nghymru ayyb
- Adnabod llefydd ar fap o Gymru



**Pa faterion/ ffactorau amgylcheddol dylai ein disgyblion fod yn eu harchwilio?**

Ail-gylchu, tyfu llysiau, y tywydd

- Sut i arbed ynni. Sut i goginio pryd o fwyd am £5
- Llygredd a thrafnidiaeth
- Ffermio
- Dysgu am goed, adar a natur

# Holiadur Cwricwlwm i Gymru – llais ein Staff

**Pa sgiliau ydech chi'n dymuno i'r plant yn eich dosbarth ddatblygu ymhellach?**

- Parhau i ddefnyddio sgiliau yn drawsgwricwlaidd
- Sgiliau dysgu yn yr awyr agored- Sesiynau Ysgol Goedwig, Cymdeithasu ag eraill o fewn y gymuned - catref henoed lleol, canolfan ni ayyb

**Beth ydech chi'n deimlo y gallwn wneud i gefnogi'r plant i fod yn annibynnol, ac yn ddysgwyr uchelgeisiol?**

- Datblygu meddylfryd y disgyblion.
- Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael yn y dosbarth i'r disgyblion gael mwy o gyfleoedd i ddysgu'n annibynnol.
- I gefnogi plant ymhellach gallwn rhoi fwy heriau/tasgau annibynnol ir plant creu o fewn yr dosbarth, ((bod yno ddim ffordd penodol o sut mae'r darn o waith fod i edrych.
- Gosod fwy o fatiau cymorth a chyfarwyddiadau yn iaith a lefel y plant, yn enwedig yn yr heriau
- Hybu annibyniaeth i gyflawni tasgau a dilyn cyfarwyddiadau heb oedolion.

**Pa brofiadau mae'r plant yn eich dosbarth yn ei fwynhau fwyaf?**

- Yn Dosbarth y Dysgwyr Sylfaen,' dwi wedi sylweddoli bod y disgyblion yn mwynhau saesiynau yn yr awyr agored- ar y beics, yn yr ardal tu allan neu yn ystod ymarfer corff! Teimlaf bod cerddoriaeth yn brofiad hwyl i'r plant ac maent yn mwynhau yr elfen yma o ddysgu yn fawr.
- Heriau, yn enwedig y rhai maen nhw wedi bod yn trafod am yn ein sesiwn llais y disgybl. Mae'n rhoi mwy o flaengaredd iddynt gan mai nhw oedd wedi meddwl am y gweithgareddau.

# Cwricwlwm i Gymru – Llais ein Llywodraethwyr

Hoffwn i'r ddisgyblion ddysgu am gestyll, Aberfan, Tryweryn.

Mae dysgu drwy chwarae, bod yn greadigol a gweithgareddau ymarferol yn bwysig.

Mae gweithgareddau awyr agored, chwaraeon a ffermio yn bwysig.

Mae dysgu am wyliau Cymreig a chestyll Cymru yn bwysig.

# Ein Gweledigaeth

Rydym yn hynod ffodus o fod yn Ysgolion ffederal, sydd yn dathlu, teimlo balchder, ac yn ymfalchio yn ein cymuned. Ein dymuniad yw i greu taith addysgol sydd yn llawn profiadau i'w trysori, atgofion melys a chyfleoedd di-ri i blant ardal Edeyrnion. **Dathlwn ein hiaith, dathlwn ein doniau**, gan annog ein gilydd wrth dyfu fel teulu yn ein cymunedau. Yn y ddwy ysgol, bydd ein holl blant yn cael pob cefnogaeth i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a mentrus mewn awyrgylch cartrefol a diogel. Drwy ddysgu, a chreu cyfleoedd amrywiol gyda'n gilydd, bydd ein plant yn datblygu'r sgiliau i fod yn gyfranwyr creadigol ac egwyddorol. Byddwn yn meithrin lles gan ddatblygu hyder ac empathi er mwyn byw ein bywyd bob dydd mor hapus, annibynnol a diogel ag y gallwn, nawr ac yn y dyfodol.

Gobeithiwn annog chwilfrydedd, meithrin cymhelliant a pharatoi ein plant i fod yn oedolion cyflawn y dyfodol.

# Anthem Ysgol Bro Elwern ac Ysgol Betws Gwerful Goch

Yn Ysgol fach Bro Elwern cawn hanesion di-ri
Am ein pentre hardd Gwyddelwern a'r dyddiau a fu
A chlywed am chwareli tywodfaen, llechi, plwm,
Wern Ddu, Craig Lelo, Ithfaen, ar lechweddi y cwm
La la la....
Pentre bach hen ffasiwn yw Betws yn y bôn I'r Dwyrain o Wyddelwern - 'mond lawr y lôn
Rhwng Melin y Wig, a Chorwen - tair plwyf ynghlwm gerllaw
Wrth lan yr Afon Alwen, a Sir Conwy'r ochr draw.
Ger yr ysgol y mae ffermydd - Ty'n Celyn a Wern Ddu
Cymuned glos a gwledig, un teulu 'de ni
Cawn ddysgu gyda'n gilydd a phopeth 'llawn graen
Yn ein crysau coch a melyn - Cennin Pedr ar eu blaen



Cytgan

Yma yn Edeyrnion Ymhell o swn y dre
Cawn ganu, joio, dawnsio a dysgu be di be!
Mae yma groeso cynnes i bawb, pwy bynnag ‘boch
Pan ddewch chi i Fro Elwern a Betws Gwerful Goch
Yma yn y Betws, mae Eglwys y Santes Fair
O’i blaen, nol ambell ganrif, bu miri mewn ffair
Sgwn i be ddwedai Gwerfil Goch pe gwyddai bod ei llun Ar gynfas glas a phorffor ein crysau bob un?
La la la.. Gerllaw mae Afon Camddwr ar ei ffordd i’r Ddyfrdwy draw Ac Eglwys hardd Sant Beuno, a’i thwr i’w weld uwchlaw I’r De, ger Corwen ganwyd Glyndwr, arwr gwlad! Nid nepell nawr mae ‘bisons’ yn deyrnged dir ei stâd!
Yma’n Ysgol Betws un teulu bach ym ni Prin yn ddeg ar hugain, ond hapus iawn ein byd
Cawn ddysgu am ein hardal, a hanes balch ein Bro Yma y mae cynnydd - *’Un dydd ar y tro.’



# Fframwaith llythrennedd, rhifedd a digidol


Mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn **sgiliau trawsgwricwlaidd pwysig** o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

**Llythrennedd**: trawsieithu, gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg.

**Rhifedd**: hyfedredd mathemategol, y system rif a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau, geometreg - siapiau, gofod a safle ac ystadegau a thebygolrwydd.

**Cymhwysedd digidol:** rhyngweithio a chydweithio, cynhyrchu data.

Wrth gynllunio ein cwricwlwm, mae'n bwysig meddwl PAM, BETH A SUT er mwyn sicrhau bod yr holl brofiadau sy'n cael eu cynnig, a'r gefnogaeth rydym yn ei ddarparu i'r disgyblion yn cael eu gwneud i bwrpas, yn cael effaith bositif, yn ysbrydoli, ac yn helpu'r dysgwr i symud ymlaen yn ei daith/ei thaith addysgol.




Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am y fframwaith llythrennedd, rhifedd a digidol

# Themâu trawsgwricwlaidd

Cliciwch yma i agor dolen hwb am ragor o wybodaeth



## Hawliau dynol

Mae pob un o'r pedwar diben yn galluogi dysgwyr i brofi eu hawliau dynol, sydd wedi ei fapio gan Gomisiynydd Plant Cymru.

## Addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Rydym yn cynnig profiadau sy'n galluogi ein disgyblion i ddysgu am y byd o'u cwmpas, gan gynnwys y byd gwaith. Rydyn ni'n gweld pwysigrwydd mawr mewn gwahodd ymwelwyr i drafod eu profiadau/rhannu gwybodaeth am swyddi sy'n cyd- fynd â themau, a sydd o ddiddordeb i'n plant. Mae profiadau bywyd yn bwysig iawn i ni yn ein cwricwlwm.

## Addysg Cydberthynas a rhywioldeb

Rydym yn cefnogi ein dysgwyr i feithrin y gallu i datblygu cydberthnasau iach a diogel gyda phobl eraill, yn ogystal â'r gallu i wneud synnwyr o'u meddyliau a'u teimladau eu hunain. Byddwn yn helpu dysgwyr i droi at ffynonellau ffeithiol ynghylch eu hiechyd a'u lles rhywiol ac atgenhedlol. Rydym yn cynnig cyfleon i ein disgyblion ddysgu am bob math o wahaniaethu, a'u galluogi i adnabod cydberthnasau a sefyllfaoedd anniogel gan eu helpu i fod yn ymwybodol o sut i chwilio am gymorth os oes angen.



## Amrywiaeth

Rydym yn dathlu amrywiaeth yn ein cymunedau .

## Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol

Cefnogir ein dysgwyr i wneud synnwyr o'r sgiliau a'r wybodaeth y maen nhw'n eu meithrin drwy greu cysylltiadau ag amgylcheddau, profiadau a digwyddiadau. Byddwn yn cefnogi ein disgyblion i fod yn ddinasyddion gwybodus, ac egwyddorol, sydd yn cael profiadau fydd yn tanio eu diddordeb yn eu hamgylchedd, ac y byd o'u cwmpas.

# Dewch i gyfarfod...





Iola Iach, Hyderus





Gwynfor Uchelgeisiol, galluog




Macsen Mentrus a Chreadigol




Enlli Egwyddorol, Gwybodus

Dyma agweddau ein cwricwlwm.






Mae mynediad i'r cwricwlwm cyflawn yn hanfodol i'n disgyblion.

# Ysgol Goedwig
















# Addysgu

Mae'r 12 egwyddor addysgeg yn cael ei feithrin yn gyson yn Ysgol Betws Gwerful Goch ac

Ysgol Bro Elwern

Datblygu dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain a datblygu fel dysgwyr annibynnol.

Creu cyd-destunau dilys.

Hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chydberthnasau cadarnhaol.

Hybu cydweithio.

Adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol. Ennyn diddordeb

Herio dysgwyr a nodi pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus.
Cyfleu disgwyliadau uchel ond cyrraeddadwy.

Defnyddio cymysgedd o ddulliau addysgu

Datblygu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl yn feirniadol.

Atgyfnerthu ac ymarfer sgiliau trawsgwricwlaidd - llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

Canolbwyntio ar wireddu'r 4 diben


Gweithredu egwyddorion asesu ffurfiannol.

Ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd Dysgu


# Cynllunio

Wrth gynllunio yn yr ysgolion, rhoddir bwyslais ar gynnig **profiadau dysgu cyfoethog ac eang** o ansawdd uchel i'n dysgwyr.
Golyga hyn roi digon o amser i ddysgwyr feithrin, ymarfer a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau.
Mae hyn yn gosod seiliau cadarn ar gyfer camau nesaf eu dysgu ac yn golygu eu bod yn adeiladu ar eu dysgu a'u cynnydd drwy gydol eu hamser yma.
Rydym hefyd yn cynllunio i sicrhau bod ein profiadau dysgu a'n haddysgu yn datblygu'r **sgiliau** isod sydd eu hangen ar ein dysgwyr i gyflawni'r 4 diben, ac mae llais ein dysgwyr yn allweddol.

Cynllunio'r Dysgwyr Sylfaen



Cynllunio'r Dysgwyr Hyn




## Mwynhau dysgu

Gweithiwn yn galed yn Ysgol Betws Gwerful Goch ac Ysgol Bro Elwern i sicrhau :

- bod y profiadau dysgu yn ddiddorol
- bod ein haddysgu yn ennyn brwdfrydedd a mwynhad ein disgyblion.





Mae sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf yn bwysig i ni yn Ysgol Bro Elwern a Betws Gwerful Goch. Mae cysondeb ethos ymhob dosbarth ar draws yr ysgol yn hollbwysig er mwyn sicrhau amgylchfyd diogel a symbylus i'n dysgwyr allu mentro, gwneud camgymeriadau'n hyderus a dysgu mewn awyrgylch o gyd barch a gwerthfawrogiad o ymdrechion pawb.

# Sbardun ar ddechrau thema, a'r cwestiwn mawr

Rydym yn cyflwyno llu o brofiadauu dysgu  ar ffurf Cwestiwn Mawr neu sbardun. Pwrpas hyn ydy i ennyn diddordeb y plant, tanio'r dychymyg, ac annog chwilfrydedd. Rydym yn ymdrechu i gefnogi'r plant i ddatblygu hyder ynddynt eu hunain i lwyddo a goresgyn heriau yn eu dyfodol.

Bydd cynllunio manylach yn digwydd fesul MDaPh neu gyfuniad ohonynt i gefnogi'r trosolwg hwn.  Defnyddir y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a'r Disgrifiadau Dysgu er mwyn sicrhau cynnydd dysgwyr ymhob maes a'u bod yn cael eu herio a'u cefnogi er mwyn cyflawni hyd eithaf eu gallu. Byddwn yn amrywio ein harddulliau addysgu yn gyson, er mwyn ennyn diddordeb, a chynnig amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr i bawb.
Defnyddir strategaethau asesu ffurfiannol yn barhaus  i sicrhau cynnydd dysgwyr yn y dosbarthiadau o ddydd i ddydd a chynhelir cyfarfodydd proffesiynnol i drafod datblygiad ein disgyblion yn rheolaidd, gan rannu, a chefnogi ein plant yn gyson.



# Asesu a Chynnydd

Credwn yn gryf bod pob plentyn yn haeddu'r cyfle i wneud cynnydd yn eu dysgu. Cawn ddarlun cyflawn o ddatblygiad bob plentyn yn eu dealltwriaeth, eu sgiliau a'u gwybodaeth wrth iddynt gamu fyny drwy flynyddoedd cynnar eu haddysg.

Rhown bwyslais ar bwysigrwydd cydweithio a chyd-ddealltwriaeth o gynnydd ar draws ymarferwyr y ddwy ysgol a bod hyn yn datblygu o sgyrsiau proffesiynol rheolaidd gyda'n gilydd, rhieni a gofalwyr.

**Dangos cynnydd**

Mae engreifftiau o waith bob dysgwr yn cael ei gasglu a'i gadw mewn ffeil personol. Fe gedwir engraifft o waith ysgrifennu, llafar, darllen a rhifedd yn ogystal a'u datblygiad llesol ac emosiynol.

**Cefnogaeth barhaus i'n dysgwyr yn ddyddiol**

Mae systemau asesu cyson ar lawr dosbarth yn rhoi darlun clir i ymarferwyr ac i'r dysgwyr o'u cyrhaeddiad a beth yw eu camau nesaf. Mae'n bwysig i ni bod pob plentyn yn cael ei gefnogi i gymryd cyfrifoldeb dros gynnydd eu hunain o dan arweiniad ac anogaeth.

**Myfyrio a mireinio cynnydd dysgwyr unigol dros amser**

Sicrheir fod cyfnodau penodol wedi eu hamserlennu ar gyfer sgyrsiau proffesiynol er mwyn trafod cynnydd pellach. Cyfle yw hyn hefyd i sicrhau pontio effeithiol rhwng dosbarthiadau ac ysgolion uwchradd.

ADY



Dyma drosolwg o'r ddarpariaeth. Rydym yn monitor cynnydd a lles bob disgybl yn ofalus er mwyn sicrhau bod pawb yn cael y gefnogaeth orau bosib er mwyn ffynnu yn ein ysgolion.



## Triongl Ymyrraeth Ysgol Bro Elwern ac Ysgol Betws GG

**ADY**

Cefnogaeth 1 i 1, IDP,
Cefnogaeth Allanol,
Cefnogaeth ALNCo Clwstwr,
Uned Ymddygiad

**Targedu**

Elsa, , Cwnsela CSDd, Systemau ymddygiad, Amserlen Gweledol, Llyfr Cyswllt Adref, Hafan, Sesiwn Athrawes Targedu, Storiau Cymdeithasol, Uned Iaith, TAS


**Cyffredinol**


Tric a Chlic, Sgiliau Sylfaenol Iaith, Sgiliau Sylfaenol Rhif, Ffurfio rhifau a/neu llythrennau, Sgiliau Gwrando, Gloywi iaith Gymraeg, profion sillafu, profion tablau, darllen






# Maes Dysgu a Phrofiad: Iechyd a Lles







Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes



Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles







Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.


Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles





Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.





# Maes Dysgu a Phrofiad:
# Ieithoedd, Llafaredd a Chyfathrebu






















Mae ieithoedd yn ein cysylltu a'n gilydd

Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch



Cancer Research UK,
Po Box 1561,
Oxford ,
OX4 9GZ
21st of october

Ysgol Bro Elwern,
Gwyddelwern,
Corwen,
Denbighshire,
LL21 9DF

Dear sir/madam,


My name is Poppy and I am a student in year 6 in Ysgol Bro Elwern. The reason I am writing to you today is because me and a group of my friends have been looking at the amazing work that your charity does . We are going to be walking from Corwen to Llangollen which is a total of 15 miles to raise money to your charity.


During this time we have learnt about all the astonishing work that you do. It is incredible how you funded approximately $24.5 billion global investment between 2016 and 2020. The fact that 1 million lives have been saved by the golden era in the progress is excellent.

We chose to raise money for Cancer Research UK because your work is really inspiring and me and my family do the race for life every year. Me and my friends will be completing this challenge over the half term holidays. What inspired you to think of the race for life? Hope to hear back from you.


Yours sincerely



















Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.


Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.


# Maes Dysgu a Phrofiad: Mathemateg a Rhifedd

Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.










Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siap, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisgeol







Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.







Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol

# Maes Dysgu a Phrofiad: Dyniaethau









Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol








Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.







Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. Mae cymdeithasau dynol yn gymleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.

Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd I'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

Maes Dysgu a Phrofiad:

Y Celfyddydau Mynegiannol

Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol






















Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg


















Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.

Maes Dysgu a Phrofiad:

Gwyddoniaeth a Thechnoleg










Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar eu gilydd i oroesi


Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas









Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau









| Enw | Gwener |
|---|---|
| Enw Saesneg | Venus |
| Nifer o lleuad | 0 |
| Maint | 12,104km |
| Pellter o'r haul | 108,000,000km |
| Hyd Awr | 5,832 Awr |
| Hyd blwyddyn | 225 diwrnod |
| Tymheredd | 475.c |








Mae cyfrifiaduraeth yn sail i'n byd digidol

Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol


Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau

# Dilyniant: Ieithoedd, Llafaredd a Chyfarthrebu


## Meithrin




## Derbyn





## Blwyddyn 1




## Blwyddyn 2




## Blwyddyn 3




## Blwyddyn 4



## Blwyddyn 5



## Blwyddyn 6



# Dilyniant: Cymhwysedd Digidol

## Meithrin



## Derbyn




## Blwyddyn 1



## Blwyddyn 2




## Blwyddyn 3




## Blwyddyn 4



## Blwyddyn 5





## Blwyddyn 6




# Dilyniant: Mathemateg a Rhifedd


## Meithrin




## Derbyn





## Blwyddyn 1





## Blwyddyn 2




## Blwyddyn 3




## Blwyddyn 4



## Blwyddyn 5



## Blwyddyn 6

